Y Comisiwn Etholiadol

# Etholiadau Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr

# Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

## Rhan 1 o 6 - Ydych chi'n gallu sefyll mewn etholiad?

Mawrth 2019

Dim ond i etholiadau Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr ar 23 Mai 2019 y mae'r ddogfen hon yn berthnasol. Gellir dod o hyd i'n canllawiau ac adnoddau ar gyfer etholiadau eraill ar ein gwefan: http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/candidate-or-agent.

# Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol ..... 2
Mathau o ymgeiswyr ..... 2
Cymwysterau sefyll mewn etholiad ..... 3
Gwaharddiadau ..... 3
Swyddi anghymharus ..... 6
Ydw i'n gallu sefyll mewn etholiad mewn mwy nag un gwlad yr UE? ..... 8
Ydw i'n gallu sefyll mewn etholiad mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol y DU? ..... 8
Ydw i'n gallu sefyll fel ymgeisydd unigol ac ymgeisydd rhestr plaid yn yr un rhanbarth etholiadol y DU? ..... 8
Ydw i'n gallu cael fy nghynnwys ar fwy nag un rhestr plaid? 8

2

# Gwybodaeth hanfodol

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ein canllawiau ar p'un a gallwch sefyll mewn etholiad, fel ymgeisydd unigol neu fel ymgeisydd ar restr plaid.

Rydym ni yma i help, felly cysylltwch â'ch swyddfa leol y Comisiwn os oes gennych unrhyw gwesitynau. Gweler ein manylion cyswllt ar ein dogfen trosolwg.

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd (unigolyn neu ar restr plaid). Rydym yn defnyddio 'rhaid' i gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol a 'dylech' ar gyfer arfer a argymhellir.

Rydym wedi cynnwys y dyddiadau cau perthnasol drwy gydol y ddogfen, ond gallwch ddod o hyd i amserlen etholiad sy'n gosod y dyddiadau allweddol ar ein gwefan.

Daeth deddfwriaeth diogelu data newydd i rym o 25 Mai 2018, a bydd yn berthnasol i brosesu holl ddata personol.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithio arnoch chi.

## Mathau o ymgeiswyr

1.1 Mae dau fath o ymgeisydd mewn etholiadau Senedd Ewrop. Gallwch sefyll fel:

- ymgeisydd unigol, neu
- os ydych yn dymuno sefyll ar ran plaid gofrestredig, ymgeisydd wedi enwi ar restr plaid

1.2 Yn y ddau achos mae'n rhaid i chi fod yn gymwys i sefyll mewn etholiad a heb gael eich gwahardd.

# Cymwysterau sefyll mewn etholiad

1.3 I allu sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr, mae'n rhaid i chi fodloni'r canlynol:

- fod yn 18 oed o leiaf ar ddiwrnod eich enwebu
- fod yn ddinesydd Prydeinig neu Wyddelig; dinesydd cymwys y Gymanwlad; neu'n ddinesydd unrhyw aelod-wladwriaeth arall yr Undeb Ewropeaidd sy'n preswylio yn y DU neu Gibraltar

## Gofynion ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr sy'n ddinasyddion yr UE

1.4 Os ydych yn ddinesydd yr UE (heblaw dinesydd Prydeinig, Gwyddelig, o Malta neu Cyprus), bydd gofyn i chi wneud datganiad yn nodi:

- nad ydych yn sefyll fel ymgeisydd yn yr un etholiad Senedd Ewrop mewn unrhyw aelod-wladwriaeth arall yr UE, ac
- nad ydych wedi'ch gwahardd rhag sefyll mewn etholiad mewn Aelod-wladwriaeth yr UE yr ydych yn genhedlig ohoni o ganlyniad i benderfyniad barwnrol neu weinyddol

1.5 Mae manylion y broses o wneud a chyflwyno'r datganiad i'w gael yn Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd unigol a Rhan 2b: Sefyll fel ymgeisydd rhestr plaid a chanllawiau ar gyfer pleidiau cofrestredig sy'n cyflwyno rhestrau plaid.

Dinesydd **cymwys** y Gymanwlad at y dibenion hyn yw dinesydd y Gymanwlad sy'n bodloni un o'r canlynol:

- does dim angen caniatâd i ddod i mewn i neu aros yn y Deyrnas Uniedg, neu
- bod caniatâd penagored i aros yn y Deyrnas Uniedg, neu
- yn breswylydd Gibraltar nad oes, yn unol â chyfraith Gibraltar, angen trwydded na thystysgrif i ddod i mewn i neu aros yn Gibraltar (ag eithrio mynediad heb drwydded na thystysgrif drwy hanfodion Adran 14 (1) Gorchymyn Rheoli Menwfudo yn unig) neu sydd â thystysgrif preswylio parhaol yn Gibraltar a roddwyd yn unol â Gorchymyn Rheoli Mewnfudo

# Gwaharddiadau

1.6 Yn ogystal â bodloni'r cymwysterau ar gyfer sefyll mewn etholiad, mae'n rhaid i chi hefyd heb fod wedi'ch gwahardd rhag cael eich ethol fel Aelod o Senedd Ewrop (ASE).

# 4

1.7 Byddwch wedi'ch gwahardd os:

- ydych wedi'ch gwahardd hefyd rhag sefyll mewn etholiad i Dŷ'r Cyffredin (gyda rhai eithriadau) (**gweler paragraff 1.9**)
- ydych yn fethdalwr o fath arbennig (**gweler paragraff 1.12**)
- ydych wedi'ch cadw yn y ddalfa am dros flwyddyn neu os ydych yn destun penderfyniadau llys penodol (**gweler paragraff 1.14**)

1.8 I osgoi risg herio, dylai ymgeiswyr sicrhau nad ydynt yn dal gwaharddiadu na swyddi gwaharddedig erbyn iddynt lofnodi eu cydsyniad i enwebu. Mae gofyn bod ymgeiswyr yn datgan yn eu cydsyniad i enwebu, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred, nad ydynt wedi'u gwahardd rhag cael swydd ASE. Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug.

## Cael eich gwahardd rhag sefyll mewn etholiad i Dŷ'r Cyffredin

1.9 Rydych wedi'ch gwahardd rhag cael eich ethol fel ASE os ydych hefyd wedi'ch gwahardd rhag sefyll mewn etholiad i Dŷ'r Cyffredin. Yr unig eithriad i hyn yw os ydych wedi'ch gwahardd rhag sefyll mewn etholiad i Dŷ'r Cyffredin oherwydd eich bod:

- yn Arglwydd (ond cewch eich gwahardd rhag bod yn ASE os ydych yn Arglwydd y Gyfraith)
- yn Arglwydd Ysbrydol
- mewn swydd y sonnir amdani yn Adran 4 Deddf Gwaharddiadau Tŷ'r Cyffredin 1975 (fel y'i diwygiwyd)
- mewn swydd a ddisgrifir yn Rhan 2 neu 3 Atodlen 1 y ddeddf honno a ddynodir drwy orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion yr adran hon

1.10 Fodd bynnag, mae person sydd â swydd a restrir yn Neddf Gwaharddiadau Tŷ'r Cyffredin 1975 (fel y'i diwygiwyd) wedi'i wahardd rhag bod yn ASE. Mae'r canlynol yn esiamplau o swyddi sy'n destun y gwaharddiad:

- barnwyr
- gweision sifil
- aelodau'r lluoedd arfog

- aelodau'r heddlu
- aelodau deddfwrfeydd tramor

1.11 Os oes gennych swydd seremonïol mewn ardal benodol a restrir yn Atodlen 1, Rhan 4 Deddf Gwaharddiadau Tŷ'r Arglwyddi 1975 (fel y'i diwygiwyd) - er enghraifft, os ydych yn siryf - byddwch yn cael eich gwahardd rhag cael eich ethol i etholaeth Seneddol benodol y DU. Lle mai dyma'r achos, byddwch yn cael eich gwahardd rhag swydd ASE ar gyfer y rhanbarth y mae'r etholaeth yn rhannol neu'n gyfan gwbl yn rhan ohoni. Fodd bynnag, gallwch sefyll mewn etholiad mewn unrhyw ranbarth etholiadol arall nad yw'n cynnwys unrhyw ran o'r etholaeth.

## Methdaliad

1.12 Nid yw bod yn fethdalwr yn ei hun yn waharddiad. Dim ond yn yr achosion canlynol yr ydych wedi'ch gwahardd:

- os ydych yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn cyfyngu rhyddhau dyled gan lys yng Nghymru neu Loegr, neu orchymyn cyfyngu methdaliad a wnaed gan lys yng Ngogledd Iwerddon, neu
- os yw eich eiddo wedi'i atafael gan lys yn yr Alban ac nad ydych wedi'ch rhyddhau, neu
- eich bod yn fethdalwr yn unol â deddf Gibraltar

1.13 Os yw person wedi'u barnu'n fethdalwr gan lys yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, neu os ydynt yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad interim, ni fyddant wedi'u gwahardd ar y sail hwnnw, cyn belled nad ydynt hefyd yn destun unrhyw un o'r gwaharddiadau methdalu a restrir uchod.

## Carcharu a penderfyniadau'r llys

1.14 Byddwch wedi'ch gwahardd yn unol â Deddf Cynrychiolaeth y Bobl os ydych wedi'ch cael yn euog o drosedd ac wedi'ch dedfrydu i'ch carcharu neu'ch cadw yn y ddalfa am fwy na blwyddyn a'ch bod wedi'ch carcharu unrhyw

le yn y DU, Iwerddon, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Gibraltar, neu'n anghyfreithlon yn rhydd.

1.15 Bydd enwebiad person sydd wedi'u gwahardd ar y sail hwnnw yn annilys, a bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn gwrthod y papur pleidleisio.

1.16 Byddwch hefyd wedi'ch gwahardd yn unol â Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd), os ydych wedi eich collfarni neu eich adrodd yn euog o droseddau etholiadol llwgr neu anghyfreithlon mewn perthynas â rhoddion. Mae'r gwaharddiad ar gyfer arfer anghyfreithlon yn cychwyn ar y dyddiad y mae person wedi'i adordd yn euod gan lys etholiadol neu ei gollfarnu ac yn parhau am dair blynedd. Mae'r gwaharddiad am afer llwgr yn cycchwyn o'r dyddiad yr adroddwyd person yn euog gan lys etholiadol neu ei gollfarni ac yn para am bum mlynedd.

1.17 Byddwhc hefyd wedi eich gwahardd am droseddau yn unol â Deddf y Comisiwn Archwilio 1998; eich bod wedi'ch gwahardd rhag cael eich ethol fel Aelod Etholedig o Senedd Gibraltar drwy hanfod adran 35 Deddf y Senedd; neu, fel dinesydd yr UE, heblaw am ddinesydd Gwyddelig, Prydeinig neun ddinesydd arall y Gymanwlad, eich bod wedi'ch gwahardd rhag bod yn ASE drwy benderfyniad barnwrol neu weinyddol yn ôl cyfraith yr aelod-wladwriaeth yr ydych yn genhedlig ohoni.

# Swyddi anghymharus

1.18 Mae bod yn Aelod o Senedd y DU yn anghymharus gyda bod yn ASE (mae hyn yn cynnwys bod yn aelod o Dŷ'r Arglwyddi. Mae hawl Arglwyddi Oes i eistedd a phleidleisio yn Nhŷ'r Arglwyddi yn cael ei ohirio os cânt eu hethol yn ASE, am gyn hired ag y maent yn dal y swydd honno)

1.19 Mae hefyd nifer o swyddi cyhoeddus yn Gibraltar a swyddi mewn cyrff yr UE sy'n gwahardd y deiliaid rhag bod yn ASE.

Mae'r holl ystod o waharddiadau a swyddi anghymharus yn gymhleth, ac os oes unrhyw amheuaeth p'un a ydych wedi'ch gwahardd, rhaid i chi wneud y cwbl allwch chi i sicrhau nad ydych wedi'ch gwahardd cyn y caiff eich papurau enwebu eu cyflwyno.

Mae'n rhaid i chi fod yn sicr nad ydych wedi'ch gwahardd gan y gofynnir i chi lofnodi'r cydsyniad i enwebu i gadarnhau nad ydych wedi'ch gwahardd.

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug ynghylch eich cymhwyster i gael eich ethol, felly os oes unrhyw amheuaeth, dylech edrych ar y ddeddfwriaeth ac, os oes angen, cael cyngor cyfreithiol eich hun. Ni fydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn gallu cadarnhau p'un a eich bod wedi'ch gwaharadd ai peidio.

Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn gallu darparu cyngor cyffredinol yn seiliedig ar y canllawiau hyn, ond ni fydd yn gallu dweud wrthych p'un a eich bod wedi'ch gwahardd ai peidio/

# 8

## Ydw i'n gallu sefyll mewn etholiad mewn mwy nag un gwlad yr UE?

1.20 Na. Nid oes hawl gennych i sefyll mewn etholiad mewn mwy nag un gwlad yr UE yn yr un etholiad.

## Ydw i'n gallu sefyll mewn etholiad mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol y DU?

1.21 Na. Byddech yn troseddu os ydych yn cytuno i gael eich enwebu fel ymgeisydd unigol neu ymgeisydd rhestr plaid mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol.

## Ydw i'n gallu sefyll fel ymgeisydd unigol ac ymgeisydd rhestr plaid yn yr un rhanbarth etholiadol y DU?

1.22 Na. Byddech yn troseddu pe baech yn cytuno i gael eich enwebu fel ymgeisydd unigol ac ymgeisydd rhestr plaid.

## Ydw i'n gallu cael fy nghynnwys ar fwy nag un rhestr plaid?

1.23 Na. Byddech yn troseddu pe baech yn cytuno i gael eich cynnwys ar fwy nag un rhestr plaid, p'un a yn yr un rhanbarth etholiadol (neu mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol).